Latest News
From The School of Welsh
Summer 2010
Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Cardiff's School of Welsh is top of the league

Cardiff's School of Welsh has been ranked best in Britain for Welsh/Celtic Studies according to *The Complete University Guide* in *The Independent* and *The Good University Guide* in *The Times*. The surveys compare all universities in the UK based on student satisfaction, research assessment, entry standards and graduate prospects. Cardiff's School of Welsh has been ranked the best in the UK in the Celtic Studies Departments table.

Grant for Research into Transferring the Welsh Language to Adults

A team of researchers based at the School of Welsh has been awarded a grant worth over £300,000 by the Welsh Assembly Government to conduct research into improving the way in which the Welsh language is transferred to adults. The team, led by Dr Diarmait Mac Giolla Chríost of the School of Welsh, includes Dr Rachel Heath-Davies and Dr Adrian Price from the Cardiff and Vale of Glamorgan Welsh for Adults Centre (located in the School of Welsh), along with Professor Alison Wray of the Centre for Language and Communication Research at Cardiff University. In addition, Professor Elaine Tarone (University of Minnesota) who was a Distinguished Visiting Scholar at the School of Welsh in 2009, and a number of researchers from Oxford University and Swansea University will be contributing to this two year project.

The aim of this research is to 'consider the way which the Welsh language is transferred to adults could be improved'. As part of this work the School will appoint a Research Associate and a Research Assistant who will begin their work in the autumn.

Y Gŵr Cadarn: First Performance in 426 Years (more or less!)

One of the earliest known plays in Welsh has been revived to delight and instruct audiences once again. *Y Gŵr Cadarn (The Strong Man)* was written by an anonymous playwright from north Wales during the 16th century and, after hundreds of years of neglect, it was recently presented to twenty-first-century audiences.

Working closely with Dr Dylan Foster Evans, Senior Lecturer in the School of Welsh, Fulbright Scholar Dr Sarah Campbell has been preparing an edition of the play for publication. As part of that project, Dr Campbell and Ceri Elen, Welsh playwright and Creative Writing Tutor in the School of Welsh, recreated the dramatic artefact so that today's audiences might share some of the experience with those play-goers of 400 years ago.

Saint Teilo's Church - Reproduced by permission of: Museum of Wales

Sponsored by Cardiff University's School of Welsh and St Fagans: National History Museum, *Y Gŵr Cadarn* was presented in Welsh by the School of Welsh's Drama Company in the churchyard of St. Teilo's, a recently reconstructed medieval church, at St Fagans Museum on 26 June 2010.

Highlights...

Success for students at Poetry Slam

This year's Poetry Slam between the students and staff of the School of Welsh was held on Friday 16 April in Buffalo Bar in the city centre. The poets Eurig Salisbury and Hywel Griffiths were the adjudicators.

The staff team won the crown for best limerick and Ceri Elen from the staff team won the 'stool' for best poem of the evening in Eurig and Hywel's view. But it was the audience who had the final say, and it was the students who were victorious overall winning the highest marks.

An Eye on the Law

Seán Ó Conaill, a PhD student in the School of Welsh, has contributed to a new book which deals with Law and the Irish language. *Súil ar an Dlí* (An Eye on the Law) discusses language rights, the 2003 Language Act in Ireland and the implications of the Act on Irish Law.

Promoting the Irish Language

John Caulfield, who is originally from Wexford in Ireland, has joined the School of Welsh as a PhD student. John's PhD is on the Irish Language (Language Planning/Sociolinguistics); in particular, he has an interest in how the internet can be harnessed to create minority language communities. The PhD is funded by the Irish government. He will also be teaching a Beginner's Irish module in the School to help promote Irish language and culture in Cardiff University.

Associate Lecturer is Wales' Archdruid

Wales' new Archdruid, T. James Jones, is an associate lecturer in the School of Welsh. He teaches *cynghanedd* (strict-metre poetry) to students on the undergraduate module 'Creative Writing'. He is also a favourite with the Colgate University students who come to the School every year to take modules on the culture, language and literature of Wales.

Members of staff become Fellows of the Higher Education Academy

Dr Diana Luft, researcher in the School of Welsh, and Dr Simon Brooks, lecturer in the School, have become Fellows of the Higher Education Academy. The aims of the Higher Education Academy are to support higher education institutions, support the professional development of staff, support communities of practice through their Subject Centres and contribute to national Higher Education policy. This reflects the School's commitment to the highest standard of teaching and learning.

Former students venture into the world of the media

A degree in Welsh can open many doors. Anni Llŷn Parri and Huw Foulkes are two among many of the School's former students who have ventured into the challenging world of the media.

Anni, who graduated last year, went on to study our MA in Welsh (Creative Writing route) before becoming one of the presenters of the new programme 'Stwnsh' on S4C's 'Planed Plant'. 'Stwnsh' is a new daily service for children aged 7 to 13 which can be seen live every day on S4C.

After graduating last year, Huw also went on to study our MA in Welsh (Creative Writing route) before deciding on a different path – journalism. He was fortunate enough to secure a place on a course at the Cardiff School of Journalism, Media and Cultural Studies, following the broadcasting option. A few weeks after completing the course he was offered work as a journalist on S4C's news programme.

Ceri Elen's new musical

'Heb ei Fai...' (He who is without fault) is a brand new musical co-written by Ceri Elen, a tutor on the School's Scriptwriting, Drama and Creative Writing modules, and Eilir Owen Griffiths. 'Heb ei Fai...' is an original story based on the universal themes of love, passion, social expectation and the hidden tension within society. In March, the musical toured Wales culminating with a performance in the Wales Millennium Centre, Cardiff.

Welsh-medium Schools in an International Context

On 19 April a conference was held on 'Welsh-medium Schools in an International Context', sponsored by the School of Welsh's Language, Policy and Planning Research Unit, the Welsh Language Board and Cardiff Humanities Research Institute.

The speakers included Professor Colin H. Williams, Research Professor at the School of Welsh; Dr Huw S. Thomas, Associate Member of the Language, Policy and Planning Research Unit; Michael Jones, Legal Consultant to RHAG; Dr Catrin Redknap, Manager of Research Projects at the Welsh Language Board; Alun Davies, Headteacher at Ysgol Gyfun Rhydywaun; Bryn Jones, Research Officer at the ESRC Centre for Research on Bilingualism at Bangor University and Meirion Prys Jones, Chief Executive of the Welsh Language Board.

The aim of the conference was to develop a deeper understanding of the Welsh-medium school amongst a representative cross-section of partners, individuals and institutions, and to discuss how to enhance aspects that could encourage further growth in the sector. The day was a success with over 50 attendees.

Dr Simon Brooks in New Zealand

In May, Dr Simon Brooks, a lecturer at the School of Welsh, was a Visiting Scholar at the University of Auckland, New Zealand. He worked with Professor Steven May, an international expert on multiculturalism and minority languages. Simon's research compared multiculturalism in the Maori and Samoan communities of New Zealand with multiculturalism in Wales, and will feed into a forthcoming book. As well as lecturing in Auckland, he also found time to learn the haka!

For further information, contact
School of Welsh, Cardiff University, Humanities Building, Colum Drive, Cardiff CF10 3EU
Phone: 029 2087 4843
E-mail: cymraeg@caerdydd.ac.uk
Website: www.cf.ac.uk/welsh

Newyddion Diweddaraf

o Ysgol y Gymraeg

Haf 2010

Prifysgol Caerdydd

Cardiff University

Y Gymraeg yng Nghaerdydd ar y brig ym Mhrydain

Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd sydd ar y brig ym Mhrydain ar gyfer y Gymraeg/Astudiaethau Celtaidd, yn ôl dau arolwg diweddar yn *The Complete University Guide* gan *The Independent* a *The Good University Guide* gan *The Times*. Mae'r arolygon yn cymharu pob prifysgol yn y Deyrnas Gyfunol o safbwynt boddhad myfyrwyr, asesiadau ymchwil, safonau mynediad a'r rhagolygon ar gyfer graddedigion. Mae'r Gymraeg yng Nghaerdydd ar frig tabl yr Adrannau Astudiaethau Celtaidd drwy'r DG gyfan.

Grant ar gyfer Ymchwil ar Drosglwyddo'r Gymraeg i Oedolion

Mae tîm o ymchwilwyr a leolir yn Ysgol y Gymraeg wedi ennill grant o dros £300,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal ymchwil i wella'r modd y trosglwyddir yr iaith Gymraeg i oedolion. Mae'r tîm, a arweinir gan y Dr Diarmait Mac Giolla Chríost o Ysgol y Gymraeg, yn cynnwys y Dr Rachel Heath-Davies a'r Dr Adrian Price o Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg (sy'n rhan o Ysgol y Gymraeg), ynghyd â'r Athro Alison Wray o Ganolfan Ymchwil Iaith a Chyfathrebu Prifysgol Caerdydd. Hefyd, bydd yr Athro Elaine Tarone (Prifysgol Minnesota), a fu'n Ysgolhaig ar Ymweliad yn Ysgol y Gymraeg yn 2009 a nifer o ymchwilwyr o Brifysgol Rhydychen a Phrifysgol Abertawe yn cyfrannu at y prosiect dwy flynedd.

Nod yr ymchwil hon yw 'ystyried sut y gellir gwella'r ffordd y caiff y Gymraeg ei throsglwyddo i oedolion'. Fel rhan o'r gwaith hwn bydd yr Ysgol yn penodi Cydymaith Ymchwil a Chynorthwyydd Ymchwil a fydd yn bwrw ati yn yr hydref.

Y Gŵr Cadarn:

Perfformiad Cyntaf ers 426 o flynyddoedd (fwy neu lai!)

Mae un o ddramâu cynharaf y Gymraeg wedi cael ei hadfywio er mwyn diddanu ac addysgu cynulleidfaoedd unwaith eto. Gwaith dramodydd anhysbys o ogledd Cymru yw *Y Gŵr Cadarn*, sy'n dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg. A hithau wedi ei hesgeuluso am gannoedd o flynyddoedd, cafodd y ddrama ei chyflwyno'n ddiweddar i gynulleidfaoedd yr unfed ganrif ar hugain.

Gan weithio'n agos â'r Dr Dylan Foster Evans, Uwch-ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, mae'r Cymrawd Fulbright y Dr Sarah Campbell wedi bod yn paratoi'r ddrama ar gyfer ei chyhoeddi. Fel rhan o'r prosiect hwnnw, ail-grewyd y ddrama gan y Dr Campbell a Ceri Elen, dramodydd Cymraeg a Thiwtor Ysgrifennu Creadigol yn Ysgol y Gymraeg, er mwyn i gynulleidfa fodern gael rhannu rhywfaint o brofiad cynulleidfaoedd 400 mlynedd yn ôl.

Eglwys Sant Teilo - Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd: Amgueddfa Cymru

Wedi ei noddi gan Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, cafodd y ddrama ei pherfformio yn y Gymraeg gan Gwmni Drama Ysgol y Gymraeg ym mynwent Eglwys Teilo Sant (eglwys ganoloesol a ailgodwyd yn ddiweddar) yn Amgueddfa Sain Ffagan ar 26 Mehefin 2010.

Pigion...

Y myfyrwyr yn ennill y Stomp

Cynhaliwyd y Stomp flynyddol rhwng y myfyrwyr a'r staff nos Wener 16 Ebrill yn Bar Buffalo yng nghanol y ddinas. Stompfeistri'r noson oedd y beirdd Eurig Salisbury a Hywel Griffiths.

Tîm y staff a gipiodd y goron am y limrig orau a Ceri Elen o dîm y staff a enillodd 'stôl' y stomp am gerdd orau'r noson ym marn y stompfeistri. Ond y gynulleidfa oedd biau'r gair olaf, a'r myfyrwyr oedd y tîm buddugol ar ddiwedd y noson.

Llygad ar y Gyfraith

Mae Seán Ó Conaill, myfyriwr PhD yn Ysgol y Gymraeg, wedi cyfrannu at lyfr newydd sy'n ymwneud â'r Gyfraith a'r Wyddeleg. Mae'r llyfr *Súil ar an Dlí* (Llygad ar y Gyfraith) yn sôn am hawliau ieithyddol, Deddf Iaith 2003 yn Iwerddon a goblygiadau'r ddeddf o safbwynt y Gyfraith.

Hyrwyddo'r Wyddeleg

Mae John Caulfield, sy'n dod yn wreiddiol o Wexford yn Iwerddon, wedi ymuno ag Ysgol y Gymraeg fel myfyriwr PhD. Mae PhD John ar yr iaith Wyddeleg (Cynllunio Ieithyddol/ Sosioieithyddiaeth) ac mae ganddo ddiddordeb arbennig mewn sut y gellir defnyddio'r rhyngrwyd i greu cymunedau o ieithoedd lleiafrifol. Ariennir y PhD gan Lywodraeth Iwerddon. Bydd hefyd yn dysgu Gwyddeleg i Ddechreuwyr yn yr Ysgol er mwyn hyrwyddo'r Wyddeleg a'r diwylliant Gwyddeleg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Darlithydd Cysylltiol yn Archdderwydd Cymru

Mae Archdderwydd newydd Cymru, sef y Prifardd T. James Jones, yn ddarlithydd cysylltiol yn Ysgol y Gymraeg. Ef sy'n dysgu'r gynghanedd i'r myfyrwyr ar y modiwl is-raddedig 'Ysgrifennu Creadigol'. Mae hefyd yn ffefryn gyda myfyrwyr Prifysgol Colgate sydd yn dod i'r Ysgol yn flynyddol i ddilyn modiwlau ar ddiwylliant, iaith a llenyddiaeth Cymru.

Aelodau o'r staff yn Gymrodyr yr Academi Addysg Uwch

Mae'r Dr Diana Luft, ymchwilydd yn Ysgol y Gymraeg, a'r Dr Simon Brooks, darlithydd yn yr Ysgol, bellach yn Gymrodyr yr Academi Addysg Uwch. Nod yr Academi yw cefnogi sefydliadau addysg uwch, cefnogi datblygiad proffesiynol staff, cefnogi cymunedau dysgu drwy eu Canolfannau Pwnc a chyfrannu at bolisi cenedlaethol yn ymwneud ag Addysg Uwch. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Ysgol i ddysgu ac addysgu o'r safon uchaf.

Cyn-fyfyrwyr yn mentro i fyd y cyfryngau

Gall gradd yn y Gymraeg agor nifer o ddrysau o ran gyrfa. Mae Anni Llŷn Parri a Huw Foulkes yn ddau o blith nifer fawr o gyn-fyfyrwyr Ysgol y Gymraeg sydd wedi mentro i fyd heriol y cyfryngau.

Wedi graddio y llynedd, aeth Anni yn ei blaen i ddilyn ein cwrs MA yn y Gymraeg (llwybr Ysgrifennu Creadigol) cyn cael swydd fel un o gyflwynwyr y rhaglen newydd 'Stwnsh' ar Planed Plant. Gwasanaeth newydd dyddiol i blant rhwng 7 ac 13 oed yw 'Stwnsh' sy'n darlledu'n fyw bob dydd ar S4C.

Ar ôl graddio yn 2008, aeth Huw hefyd yn ei flaen i ddilyn ein cwrs MA yn y Gymraeg (llwybr Ysgrifennu Creadigol) cyn penderfynu dilyn trywydd newyddiadurol. Bu'n ddigon ffodus i gael lle ar gwrs yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol Caerdydd, gan ddilyn yr opsiwn darlledu. Ychydig wythnosau ar ôl cwblhau'r cwrs, cafodd swydd fel newyddiadurwr ar raglen newyddion S4C.

Drama gerdd newydd gan Ceri Elen

Drama gerdd newydd sbon yw 'Heb ei fai...' a ysgrifennwyd ar y cyd gan Ceri Elen, tiwtor ar fodiwlau Sgriptio, Drama ac Ysgrifennu Creadigol yr Ysgol, ac Eilir Owen Griffiths. Stori wreiddiol yw 'Heb ei Fai...' sy'n sôn am gariad a nwyd, am warchod enw da ac am y tensiynau sy'n celu o fewn cymdeithas. Aethpwyd â'r ddrama gerdd ar daith lwyddiannus o amgylch Cymru ym mis Mawrth, gan orffen yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd.

Yr Ysgolion Cymraeg mewn Cyd-destun Rhyngwladol

Ar 19 Ebrill, cynhaliwyd cynhadledd ar 'Yr Ysgolion Cymraeg mewn Cyd-destun Rhyngwladol' dan nawdd yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio (Ysgol y Gymraeg), Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Sefydliad Ymchwil Dyniaethau Caerdydd.

Ymhlith y siaradwyr roedd Yr Athro Colin H. Williams, Athro Ymchwil yn Ysgol y Gymraeg; y Dr Huw S. Thomas, Aelod Cysylltiol o'r Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio; Michael Jones, Ymgynghorydd Cyfreithiol i RHAG; y Dr Catrin Redknap, Rheolwr Prosiectau Ymchwil Bwrdd yr Iaith Gymraeg; Alun Davies, Pennaeth Ysgol Gyfun Rhydywaun; Bryn Jones, Swyddog Ymchwil, Canolfan ESRC dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd, Prifysgol Bangor a Meirion Prys Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bwriad y gynhadledd oedd datblygu dealltwriaeth o'r 'ysgol Gymraeg' ymhlith amrediad o unigolion a chyrff dylanwadol, a thrafod sut i ymestyn a datblygu agweddau a allai arwain at dwf yn y sector. Bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol gyda thros 50 o gynadleddwyr.

Dr Simon Brooks yn Seland Newydd

Ym mis Mai bu'r Dr Simon Brooks, darlithydd yn Ysgol y Gymraeg, yn Ysgolor ar Ymweliad ym Mhrifysgol Auckland, Seland Newydd. Bu'n gweithio gyda'r Athro Stephen May, arbenigwr rhyngwladol mewn amlddiwylliannedd ac ieithoedd lleiafrifol. Pwrpas yr ymweliad oedd cymharu amlddiwylliannedd yn y gymuned Maori a Samoeg yn Seland Newydd ag amlddiwylliannedd yng Nghymru ar gyfer cyfrol sydd ar y gweill ganddo. Yn ogystal â darlithio yn Auckland, fe gafodd gyfle hefyd i ddysgu'r haka!

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Caerdydd CF10 3EU

Ffôn: 029 2087 4843
E-bost: cymraeg@caerdydd.ac.uk
Gwefan: www.cf.ac.uk/cymraeg